Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Ymateb i Ymgynghoriad / Consultation Response**

| | |
|---|---|
| **Enw / Name:** | Owen Evans |
| **Rôl / Role:** | Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru |
| **E-bost / Email:** | Prif-arolygydd@estyn.llyw.cymru |
| **Rhif Ffôn / Tel No:** | 029 2044 6446 |
| | |
| **Dyddiad / Date:** | 31.01.22 |
| **Pwnc / Subject:** | **Addysg Ddewisol yn y Cartref** |

**Gwybodaeth gefndir am Estyn**

Estyn yw Swyddfa Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Fel corff y Goron, mae Estyn yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

Prif nod Estyn yw codi safonau a gwella ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Caiff hyn ei nodi yn Neddf Dysgu a Sgiliau 2000 a Deddf Addysg 2005 yn bennaf. Wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae'n rhaid i Estyn ystyried:

- Ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Y graddau y mae addysg a hyfforddiant yn bodloni anghenion dysgwyr;
- Y safonau addysgol a gyflawnir gan ddarparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth y darparwyr addysg a hyfforddiant hynny;
- Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol dysgwyr; a'r
- Cyfraniad a wneir at les dysgwyr.

Mae cylch gwaith Estyn yn cynnwys (ond nid yn unig) meithrinfeydd a lleoliadau nas cynhelir, ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd, ysgolion annibynnol, unedau cyfeirio disgyblion, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau addysg llywodraeth leol, dysgu yn y gwaith, ac addysg a hyfforddiant athrawon.

Gall Estyn roi cyngor i'r Senedd Cymru ar unrhyw fater sy'n gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Er mwyn cyflawni rhagoriaeth i ddysgwyr, mae Estyn wedi pennu tri amcan strategol:

- Darparu atebolrwydd i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru;
- Meithrin gallu i wella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Nid yw'r ymateb hwn yn gyfrinachol.

## Ymateb

**Cyflwyniad**

Rydym yn croesawu gwaith Llywodraeth Cymru i ddwyn arweiniad statudol ymlaen i gefnogi awdurdodau lleol yn eu rôl i sicrhau bod plant sy'n cael addysg ddewisol yn y cartref yn cael addysg addas ac unrhyw gymorth ychwanegol a all fod ei angen arnynt. Mae nifer y plant sy'n cael eu haddysgu yn y cartref yn ddewisol wedi cynyddu ers dechrau'r pandemig, sydd wedi cynyddu natur frys y gwaith hwn. Rydym wedi cynnig cyngor parhaus i Lywodraeth Cymru drwy ymatebion ymgynghori a gweithgorau, ac mae'r ymateb hwn yn crynhoi'r cyngor hwnnw.

Mae ein hymateb yn nodi pam y teimlwn y dylai awdurdod lleol weld plentyn a chyfathrebu ag ef/â hi fel rhan o'r broses o fodloni ei hun bod y plentyn yn cael addysg addas. Mae hyn i gefnogi hawliau'r plentyn, cadarnhau gwybodaeth arall am y ddarpariaeth addysg a chynnig cyfle i ystyried a oes gan y plentyn anghenion dysgu ychwanegol y mae angen asesiad statudol neu gymorth ar eu cyfer.

Nodwn y rhesymau pam, mewn amgylchiadau eithriadol, efallai na fydd yn briodol cyfarfod â phlentyn fel rhan o'r broses ar gyfer asesu addasrwydd addysg. Pan fydd cyfarfod yn digwydd, rydym wedi nodi ei fod yn well cyfarfod â phlentyn wyneb-yn-wyneb yn hytrach nag ar-lein, er bod yr olaf yn dderbyniol mewn amgylchiadau eithriadol.

Nodwn, er gwaethaf ystyriaethau cyd-destunol pwysig, na fyddai angen i swyddog yr awdurdod lleol dreulio mwy na hanner awr â phlentyn, fel arfer.

Nodwn y byddai asesiad blynyddol yn ddigon aml, fel arfer, i asesu addasrwydd addysg, sy'n cynnwys ystyried barn y plentyn. Awgrymwn y byddai'n ddefnyddiol pe byddai plant sy'n cael eu haddysgu yn y cartref yn cael man cyswllt pe byddent yn dymuno mynegi barn am eu haddysg y tu allan i asesiad ffurfiol.

Diben cyfarfod â'r plentyn yw cefnogi asesiad o addasrwydd addysg yn hytrach na chadw golwg ar ei (l)les. Fodd bynnag, credwn ei fod yn bwysig nodi, os bydd swyddog yr awdurdod lleol yn cyfarfod â phlentyn at unrhyw ddiben, mae ganddo ef/ganddi hi ddyletswydd statudol i roi gwybod am unrhyw bryder sydd ganddo/ganddi am les y plentyn. Os oes gan unrhyw swyddogion awdurdodau lleol wybodaeth, pryderon neu amheuon fod plentyn yn dioddef, wedi dioddef neu'n debygol o fod mewn perygl o gael ei gam-drin/cham-drin, ei (e)sgeuluso neu ddioddef mathau eraill o niwed, mae ganddo ef/ganddi hi ddyletswydd statudol i sicrhau y caiff y pryderon eu cyfeirio at y gwasanaethau cymdeithasol neu'r heddlu, sydd â dyletswyddau a phwerau statudol i wneud ymholiadau ac ymyrryd, yn ôl yr angen.

## Cwestiynau'r ymgynghoriad

Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn yn garedig i Brif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru ddarparu sail resymegol broffesiynol, ysgrifenedig ar y cwestiynau canlynol yn ymwneud ag arweiniad drafft statudol ar addysg ddewisol yn y cartref:

1) **er mwyn i’r awdurdod lleol fodloni ei hun ynghylch addasrwydd darpariaeth addysg gan y rhieni, dylai’r awdurdod lleol weld y plentyn a chyfathrebu ag ef/â hi;**

Er mwyn i’r awdurdod lleol allu bodloni ei hun ynghylch addasrwydd y ddarpariaeth addysg, mae’n hanfodol bod y gyfraith yn ei gwneud yn ofynnol i swyddogion â chymwysterau a hyfforddiant addas weld y plentyn a chyfathrebu ag ef/â hi fel rhan o’r broses fonitro flynyddol.

- Mae cyfarfod â’r plentyn yn cefnogi ei hawl dan Erthygl 12 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau’r Plentyn (CCUHP) i fynegi ei farn/barn ac i’w safbwyntiau gael eu hystyried wrth wneud asesiad ynghylch addasrwydd addysg.
- Mae cyfarfod â’r plentyn yn cynnig cyfle i swyddog yr awdurdod lleol gadarnhau’r wybodaeth a roddwyd gan y rhiant bod addysg addas yn cael ei chynnig.
- Er mwyn asesu addasrwydd addysg, byddai angen i swyddog ystyried unrhyw anghenion dysgu ychwanegol sydd gan y plentyn. Trwy gyfarfod â’r plentyn, mae hyn yn cynnig cyfle i swyddog yr awdurdod lleol benderfynu a allai fod gan y plentyn anghenion dysgu ychwanegol a all fod angen asesiad neu gymorth statudol ar eu cyfer ai peidio. Mae gan y plentyn hawl i sicrhau y caiff ei (h)anghenion eu bodloni.

Nid yw’r arweiniad drafft yn cyfeirio o gwbl at werth siarad â’r plentyn ar wahân i’r rhiant. Yn ddelfrydol, byddai swyddog yr awdurdod lleol yn cyfarfod â’r plentyn ar wahân i’r rhiant, fel nad yw’r rhiant yn cael dylanwad gormodol ar y plentyn wrth rannu ei safbwyntiau (fel sy’n digwydd pan fydd arolygwyr yn cyfarfod â dysgwyr mewn ysgolion). Bydd sefyllfaoedd yn codi pan fydd y plentyn angen i’w r(h)iant fod yn bresennol, er enghraifft oherwydd ei (h)oed ifanc, lles emosiynol neu anghenion dysgu ychwanegol. Os na fydd rhiant yn rhoi caniatâd i’r plentyn gyfarfod ar wahân, yna dylai swyddog yr awdurdod lleol gynnal y drafodaeth ym mhresenoldeb y rhiant. Efallai y bydd hyn yn meithrin ymddiriedaeth i’r rhiant roi caniatâd yn y dyfodol.

2) **gallai fod achlysuron, neu amgylchiadau eithriadol, lle nad yw cyfarfod â’r awdurdod lleol er lles pennaf y plentyn. Yn yr achos hwn, sut gallai’r awdurdod lleol fodloni ei hun ynghylch addasrwydd yr addysg a ddarperir gan y rhieni?**

Gallai fod amgylchiadau eithriadol lle nad yw’n bosibl i’r plentyn gyfarfod â swyddog yr awdurdod lleol neu lle nad yw er ei (l)les pennaf. Gallai’r amgylchiadau hyn fod yn rhai dros dro neu’n rhai hirdymor. Lle mae’r rheswm yn un dros dro, efallai y bydd yn briodol cyfarfod â’r plentyn ar-lein, yn enwedig os yw’r awdurdod lleol wedi bodloni ei hun yn flaenorol ynghylch addasrwydd yr addysg. Fel arall, gellir gohirio’r cyfarfod tan adeg fwy cyfleus. Fodd bynnag, ni ddylai fod yn dderbyniol i riant ohirio cyfarfod yn barhaus am gyfres o resymau dros dro, a chaiff hyn ei egluro yn yr arweiniad statudol drafft.

Weithiau, gall rheswm eithriadol fod yn un hirdymor neu’n barhaol hyd yn oed. Er enghraifft, gall plentyn fod ag afiechyd meddwl neu afiechyd marwol, neu efallai ei fod/bod wedi dioddef trawma sylweddol. Rhaid i’r awdurdod lleol allu sicrhau ei hun, mewn modd sensitif, bod rheswm tymor hwy neu barhaol pam na ellir gweld neu gyfathrebu â’r plentyn yn ddilys, ac na fyddai gweld neu gyfathrebu â’r plentyn er ei (l)es pennaf. Dan yr amgylchiadau hyn, byddai angen i’r awdurdod lleol fodloni ei hun ynghylch addasrwydd y

ddarpariaeth addysg drwy ystyried gwybodaeth a roddir gan y rhiant a chael trafodaeth â'r rhiant. Gallai fod yn ddefnyddiol ystyried cael unrhyw dystiolaeth ategol gan weithwyr proffesiynol eraill a all fod yn gweithio â'r plentyn neu'r teulu mewn rhinwedd cefnogol.

**3) wrth asesu addysg addas drwy weld plentyn a chyfathrebu ag ef/hi, i ba raddau y mae defnyddio technoleg fel Zoom yn ddewis arall derbyniol i asesu wyneb-yn-wyneb?**

Byddai bob amser yn well cyfarfod â phlentyn wyneb-yn-wyneb i gefnogi asesiad o addasrwydd y ddarpariaeth addysg. Mae hyn yn galluogi swyddog yr awdurdod lleol, lle y bo'n briodol, i ystyried yr amgylchedd dysgu, adolygu enghreifftiau o ddysgu ac ystyried a allai fod gan y plentyn anghenion dysgu ychwanegol. Ar ben hynny, mae'n haws deall ac ymateb i arwyddion di-eiriau wyneb-yn-wyneb â phlentyn. Fodd bynnag, mae cyfarfod ar-lein, yn enwedig galwad fideo lle gall y plentyn a swyddog(ion) yr awdurdod lleol weld a chlywed ei gilydd, yn ddewis gwerthfawr arall os nad yw'n bosibl cael trafodaeth wyneb-yn-wyneb. Dylid ond cynnal cyfarfod ar-lein mewn amgylchiadau eithriadol, fel os oes gan y plentyn reswm meddygol neu seicolegol dros beidio â gallu siarad yn uniongyrchol â swyddog yr awdurdod lleol, neu oherwydd rheolau neu arweiniad y llywodraeth yn ystod pandemig.

**4) pe byddai rhiant yn rhoi gwybodaeth fel y disgrifir yn Atodiad 3 a 4 (a a b) yr arweiniad statudol cyn cyfarfod â'r plentyn, faint o amser y gallai ei gymryd i unigolyn â chymwysterau addas lunio barn ar addasrwydd y ddarpariaeth addysg?**

Mae'n bwysig y rhoddir amser rhesymol fel bod y plentyn a'r rhiant yn deall gwerth yr ymweliad. Mae hyd yr ymweliad yn dibynnu ar y cyd-destun, i raddau: er enghraifft, faint o wybodaeth a roddwyd gan y rhiant ymlaen llaw, oedran y plentyn, unrhyw anghenion dysgu ychwanegol sydd gan y plentyn, nifer y plant sy'n cael eu haddysgu yn yr un cartref, a ph'un ai hwn yw'r asesiad cyntaf o addasrwydd yr addysg ar gyfer y plentyn ai peidio.

Mae'n bwysig nad yw unrhyw ymweliad â phlentyn yn cael ei ruthro. Os rhoddwyd gwybodaeth sylweddol am y ddarpariaeth addysg, mae'n bwysig bod swyddog yr awdurdod lleol yn gwirio dilysrwydd y wybodaeth hon â'r plentyn. Ar y llaw arall, os rhoddwyd ychydig iawn o wybodaeth, bydd angen amser i ddarganfod mwy am addasrwydd y ddarpariaeth addysg gan y plentyn. Mae angen caniatáu amser i'r plentyn fynegi barn.

Er gwaethaf ystyriaethau cyd-destunol pwysig, ni ddylai fod angen i swyddog yr awdurdod lleol dreulio mwy na hanner awr â'r plentyn, fel arfer, i ategu asesiad o addasrwydd ei (h)addysg.

Yn ogystal ag amser â'r plentyn, bydd angen i swyddog yr awdurdod lleol dreulio rhwng hanner awr ac awr â'r rhiant, fel arfer, i drafod y ddarpariaeth addysg ar gyfer ei blentyn/phlentyn, yn amodol ar ddefnyddioldeb y wybodaeth a roddwyd gan y rhiant ymlaen llaw a chanlyniad unrhyw asesiadau blaenorol a gynhaliwyd gan yr awdurdod lleol.

Mae hyn yn golygu, lle yr aseswyd bod addysg ar gyfer plentyn yn addas yn flaenorol, gallai cyfanswm o awr fod yn ddigon i swyddog yr awdurdod lleol lunio barn ar addasrwydd y ddarpariaeth addysg.

Bydd faint o amser sydd ei angen ar swyddog yr awdurdod lleol cyn yr asesiad yn amrywio, yn amodol ar y wybodaeth a roddir gan y rhiant.

Mae angen cofio y gallai ymweliad arwain at atgyfeiriad. Er enghraifft, gallai'r plentyn elwa ar asesiad o anghenion dysgu ychwanegol, a gallai'r broses o benderfynu ar addasrwydd yr addysg fynnu amser ychwanegol ac ymweliad arall, o bosibl.

**5) a yw asesiad blynyddol yn ddigon aml i asesu addasrwydd darpariaeth addysg, gofyn am farn y plentyn ac a roddir pwysoliad digonol arno wrth asesu addasrwydd addysg?**

Mae asesiad blynyddol yn ddigonol pan nad oes unrhyw bryderon blaenorol ynghylch addasrwydd y ddarpariaeth addysg. Fel y nodwyd mewn ymatebion blaenorol, dylai'r asesiad hwn gael ei gynnal wyneb-yn-wyneb, fel arfer, a dylai gynnwys cyfle i'r plentyn fynegi ei safbwyntiau ynghylch addasrwydd ei (h)addysg. Mae'r amlder hwn yn gyson, er enghraifft, â'r gofyniad i'r ysgol roi adroddiad ysgrifenedig i rieni a'r gofyniad am adolygiad blynyddol o ddatganiad o anghenion addysgol arbennig.

Pan fydd pryderon ynghylch addasrwydd y ddarpariaeth addysg, dylai'r gyfraith ganiatáu i swyddogion yr awdurdod lleol ymweld yn amlach hyd nes yr eir i'r afael â'r pryderon.

Gallai'r arweiniad gyfarwyddo awdurdodau lleol i ddarparu man cyswllt i blant sy'n cael eu haddysgu yn y cartref os hoffent fynegi unrhyw farn ar addasrwydd eu haddysg y tu allan i asesiad ffurfiol.